Clybiau Plant Cymru
Kids' Clubs
since 2001

ADRODDIAD MOONDANCE FOUNDATION

EBRILL I MEDI

2026

THE MOONDANCE FOUNDATION REPORT

APRIL TO SEPTEMBER

Hoffem ddiolch i ymddiriedolwyr The Moondance Foundation am eu cefnogaeth barhaus ac am eu rhodd o £118,625, a dderbyniwyd yn falch gennym ym mis Mawrth 2026.

Nod y cyllid oedd cefnogi llesiant plant, yn enwedig y rhai sydd dan anfantais a chynaliadwyedd hirdymor ac ansawdd y sector Gofal Plant All-Ysgol yng Nghymru.

We would like to thank The Moondance Foundation Trustees for their continued support and the donation of £118,625 that we were delighted to receive in March 2026.

The objective of the funding was to support children's wellbeing, particularly those who are disadvantaged and the continued sustainability and quality of the Out of School Childcare Sector in Wales.

Gwell hygyrchedd a chynaliadwyedd

Trwy'r rhodd, ein nod oedd darparu hyd at **2,700 o leoedd gofal plant wedi'u hariannu** i hyd at 90 o blant dan anfantais.

Mae'r sesiynau cyfoethog eu chwarae yn darparu cyfleoedd i blant gael profiadau gyda ffrindiau, cefnogi ymgysylltiad cymdeithasol a llesiant meddyliol, tra hefyd yn rhoi cyfleoedd i rieni weithio neu hyfforddi, gan helpu i leddfu tlodi.

I lansio'r Cynllun Lleoedd a Ariannir, cynhaliwyd gweminar gennym gan roi wahoddiad i bob darparwr Gofal Plant All-Ysgol sydd wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru.

Mynychwyd y gweminar gan 39 o ymarferwyr Gofal Plant All-Ysgol, lle eglurwyd yr Aelodaeth a Ariannir a'r grant Lleoedd a Ariannir, a rhoddwyd cyfle i ateb cwestiynau, gan roi mwy o hyder iddynt. Fe wnaethom hefyd hyrwyddo'r cynllun drwy e-byst, ein gwefan, ein bwletin wythnosol a'r cyfryngau cymdeithasol.

Mae llwyddiant y lansiad, yr ymgyrch hyrwyddo a'r effaith a gyflawnwyd yn flaenorol drwy'r cynllun yn amlwg, gan ein bod wedi cael 68 o ymholiadau mewn tair wythnos ar ôl ceisiadau fynd yn fyw (53 yn 2025-26).

Improved accessibility and sustainability

Through the donation we aimed to provide up to **2,700 funded childcare places**, for up to 90 disadvantaged children.

The play-rich sessions allow for experiences with friends, support social engagement and mental wellbeing while providing parents' opportunities to work or train, relieving poverty.

To launch the Funded Places Scheme, we held a webinar inviting all Care Inspectorate Wales registered Out of School Childcare providers.

39 Out of School Childcare practitioners attended where both the Funded Membership and Funded Places grant were explained and enabling queries to be answered, giving them greater confidence. We also promoted the scheme through emails, our website, weekly bulletin and social media.

The launch, promotion and the impact previously made through the scheme is evident as within 3 weeks of the applications being live, we received **68** enquiries (53 in 2025-26).

Er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cyrraedd cynifer â phosibl, roedd clybiau Gofal Plant All-Ysgol yn gallu gwneud cais am uchafswm o 4 sesiwn wedi'u hariannu yr wythnos dros gyfnod o 11 wythnos, gan gwmpasu darpariaeth r'ôl-ysgol a darpariaeth yn ystod gwyliau'r ysgol.

Roedd y Cynllun Lleoedd a Ariannir wedi'i or-danysgrifio, gan dderbyn **54** o geisiadau. Gan fod pob cais wedi'i brosesu yn nhrefn eu derbyn, dyfarnwyd **52** o geisiadau, gan gynnig **3,124 o sesiynau** , gan **ragori ar y targed o 424** (49 cais a dderbyniwyd a 3,031 o sesiynau wedi'u dyfarnu yn 2025-26).

Gan fod y galw am y cynllun wedi rhagori ar y disgwyliadau, mae hyn wedi arwain at ymrwymiadau cychwynnol sy'n uwch na'r gyllideb a neilltuwyd. Rydym yn rheoli hyn yn ofalus drwy fonitro'r sesiynau a ddefnyddir yn barhaus. Lle nad yw sesiynau wedi'u defnyddio'n llawn yn unol â'r dyfarniad, ac os yw'n briodol, gofynnir am ad-daliad er mwyn helpu i ddod â'r gwariant yn ôl o fewn y gyllideb. Gall hyn olygu bod nifer terfynol y lleoedd a gefnogir yn is na'r nifer a ddyfarnwyd yn wreiddiol.

Bydd y cyllid yn cefnogi cynaliadwyedd y 52 Clwb Gofal Plant All-Ysgol hyn, ynghyd â thua 104 o swyddi Gweithiwr Chwarae.

To ensure a wide reach for the scheme Out of School Childcare Clubs were able to apply for a maximum of 4 funded sessions per week for a total of 11 weeks covering both after school and holiday provisions.

The Funded Places Scheme was oversubscribed, receiving **54** applications. With each application processed in the order of receipt, **52** applications offering **3,124 sessions** have been awarded, **exceeding target by 424**(49 received and 3,031 sessions awarded 2025-26).

As demand for the scheme exceeded expectations, it has resulted in initial commitment above the allocated budget. We are managing this carefully through ongoing monitoring of sessions used. Where sessions have not been fully allocated in line with the award and where appropriate, repayment will be requested helping to bring the spend back into budget. This may result in the final number of places supported is lower than the number initially awarded.

The funding will support the sustainability of those 52 Out of School Childcare Clubs along with approximately 104 Playworker jobs.

Monitro

Er mwyn asesu effaith y cyllid, mae'r rhai sydd cael dyfarniad yn cwblhau ffurflenni monitro eu hunain, ynghyd â ffurflenni gan y plant sydd wedi mynychu a'u rhieni neu ofalwyr.

Rydym ar hyn o bryd yn y broses o gasglu a choladu'r ffurflenni monitro. Mae'r canlyniadau a gafwyd hyd yma yn dangos:

- Defnyddiwyd 1,040 o sesiynau
- Cafodd 32 o blant eu cefnogi
- Mae gan 10% o'r plant a gefnogwyd anghenion ychwanegol

Mae ymatebion rhieni ynghylch yr effaith ar eu plentyn yn dangos bod:

- 95% wedi mwynhau mynychu'r sesiynau
- 95% wedi gwella eu sgiliau cymdeithasu
- 95% yn ymddangos yn hapusach

Dywedodd un rhiant:

> *"Rwy'n ysgrifennu i fynegi fy niolch diffuant am y cyllid a alluogodd fy mhlentyn i fynychu'r Clwb. Diolch i'r cyllid hwn, mae fy mhlentyn wedi elwa'n aruthrol, gan feithrin cyfeillgarwch a datblygu ei sgiliau Cymraeg ymhellach. Rydym yn wirioneddol ddiolchgar am yr effaith gadarnhaol y mae'r cymorth hwn wedi'i chael ar ei datblygiad ac ar lesiant ein teulu."*

Monitoring

To assess the impact of the funding those awarded
return monitoring forms completed by themselves, the children who have attended and their parent.

We are currently in the process of collecting and collating monitoring forms. The results we have obtained so far show:

- 1,040 sessions used
- 32 children benefitted
- 10% of the children who have benefitted have an additional need

Parental responses about the impact on their child indicate:

- 95% enjoyed attending the sessions
- 95% had improved socialisation
- 95% seemed happier

One parent stated:

> *"I am writing to express my sincere appreciation for the funding that enabled my child to attend Club. Thanks to this funding, my child has benefited enormously, building friendships and further improving her Welsh language skills. We are truly grateful for the positive impact this support has had on her development and on our family's well-being"*

Mae adborth gan y plant eu hunain am eu profiad o'r sesiynau, ymhlith y rhai a ymatebodd, yn dangos bod:

- 100% wedi mwynhau mynychu
- 97% wedi rhoi cynnig ar rywbeth Newydd
- 100% wedi treulio amser gyda'u ffrindiau

Pan ofynnwyd beth oedd eu hoff beth am y clwb, dywedodd un plentyn:

> *"Roeddwn i'n gallu dod i [lleoliad] gyda fy ffrindiau, ond cyn hynny ni allai fy mam fforddio talu i mi fynd i [lleoliad]."*

Mae Swyddogion Datblygu Busnes Gofal Plant wedi ymweld â'r lleoliadau a gafodd gyllid. Gellir gweld adborth uniongyrchol drwy'r ddolen isod:

Grant Llefydd wedi'u Hariannu Moondance - Clybiau Plant Cymru (CY)

Feedback from children themselves about their experience of the sessions of those who responded:

- 100% enjoyed attending
- 97% tried something new
- 100% spent time with their friends

When asked what their favourite thing about club was, one child stated:

> *"I was able to come to [setting] with my friends where before my mammy couldn't afford to pay for me to go to [setting]."*

Childcare Business Development Officers have visited settings who were awarded funding, direct feedback can be viewed on the link below:

https://clybiauplantcymru.org/moondance-foundation/

Gwell ansawdd a chynaliadwyedd trwy aelodaeth

Mae aelodaeth wedi'i hyrwyddo i bob clwb, mae hyn wedi ein galluogi i ddileu'r pwysau ariannol ychwanegol sy'n gysylltiedig ag aelodaeth, gan alluogi pob lleoliad i barhau i elwa ar arbenigedd ein harbenigwyr sector, cymorth cynaliadwyedd, adnoddau o ansawdd uchel a'r wybodaeth ddiweddaraf drwy ein bwletinau wythnosol a chwarterol, gweminarau a digwyddiadau ar-lein.

Mae uchafbwyntiau ein harolwg boddhad aelodaeth 2026 yn dangos:

Improved quality and sustainability through membership

Membership has been promoted to all clubs, this has enabled us to remove the additional financial pressure of membership allowing every setting continued benefit from our sector experts, sustainability support, high-quality resources and continued updates through weekly and quarterly bulletins, webinars and online events.

Our 2026 membership satisfaction survey highlights are:

BODDHAD GYDA CHYMORTH A GWASANAETHAU

Mae boddhad cyffredinol gyda gwasanaethau yn parhau i fod yn uchel iawn ym mhob maes o'r gwasanaeth.

ROEDD 99% O'R AELODAU
yn fodlon â'r gefnogaeth a'r gwasanaethau a dderbyniwyd, sy'n cynrychioli cynnydd o 1% o'r flwyddyn flaenorol.

CYTUNODD 99% O'R AELODAU
a dderbyniodd hyfforddiant ei fod o ansawdd uchel ac yn hygyrch.

ROEDD 99% O'R AELODAU
a fynychodd weminarau Clwb Hwb yn cytuno eu bod yn addysgiadol ac yn ddefnyddiol.

CYTUNODD 100% O'R AELODAU
fod staff wedi bod yn gwrtais, yn broffesiynol ac yn ymatebol, gan ddarparu cymorth gwybodus mewn amser da.

ROEDD 99% O'R AELODAU
a dderbyniodd gyngor ar sefydlu neu redeg eu busnes gofal plant yn teimlo bod y cyngor yn briodol ac yn effeithiol.

Tynnodd adborth aelodau sylw at broffesiynoldeb, ymateboldeb ac arbenigedd staff fel cryfder allweddol y sefydliad ac amlygodd rhai clybiau fod y gefnogaeth a gynigir wedi bod yn **hanfodol iddyn nhw helpu i reoli heriau yn eu lleoliadau.**

SATISFACTION WITH SUPPORT AND SERVICES

Overall satisfaction with services remains extremely high across all areas of service.

99 % OF MEMBERS
were satisfied with the support and services received, representing a 1% increase from the previous year.

99 % OF MEMBERS
who received training agreed that it was high quality and accessible.

99 % OF MEMBERS
who attended Clwb Hwb webinars agreed they were informative and helpful.


100 % OF MEMBERS
agreed that staff have been polite, professional and responsive, providing timely and knowledgeable support.

99 % OF MEMBERS
who received advice on setting up or running their childcare business felt the advice was appropriate and effective.

Member feedback consistently highlighted the professionalism, responsiveness and expertise of staff as a key strength of the organisation and some clubs highlighted that the support offered has been **essential in helping them manage challenges within their settings.**

ADNODDAU SY'N CAEL MYNEDIAD GAN AELODAU


Gofynnwyd i'r aelodau pa adnoddau yr oeddent wedi cael mynediad iddynt ac wedi elwa ohonynt yn ystod y flwyddyn. Mae'r canlyniadau'n dangos ymgysylltiad cryf ag ystod o sianeli cyfathrebu a deunyddiau cymorth.
Yr adnoddau a gyrchiad yn amlach oedd:



Mae'r e-bost bwletin wythnosol yn parhau i fod yn brif ffynhonnell o wybodaeth i aelodau, tra bod y llyfrgell adnoddau ar-lein yn parhau i fod yn offeryn cymorth pwysig i glybiau.

RESOURCES ACCESSED BY MEMBERS

Members were asked which resources they had accessed and benefited from during the year. The results show strong engagement with a range of communication channels and support materials.
The most commonly accessed resources were:



The weekly bulletin email continues to be the primary source of information for members, while the online resource library remains an important support tool for clubs.

Diolch, The Moondance Foundation

Thank you, The Moondance Foundation

Rydym yn gwerthfawrogi ac yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth a'r cyllid parhaus a dderbyniwyd gan The Moondance Foundation.
Mae'r cyllid hwn wedi galluogi mwy o gyfleoedd i blant dan anfantais chwarae, ac wedi rhoi cyrchiad at ganllawiau pwrpasol ac adnoddau sy'n cefnogi cynaliadwyedd i Glybiau Gofal Plant All-Ysgol.

We value and appreciate the continued support and funding received by The Moondance Foundation.
It has enabled the continued facilitation of more opportunities for disadvantaged children to play and given Out of School Childcare Clubs access to bespoke guidance and resources supporting sustainability.



Adroddiad Moondance Foundation
Ebrill i Medi 2026

The Moondance Foundation Report
April to September 2026

Clybiau Plant Cymru
Kids' Clubs
since 2001

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Company limited by guarantee | Cwmni cyfyngedig drwy warrant 4296436

Registered charity | Elusen Gofrestredig 1093260

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Bridge House, Station Road, Llanishen, Cardiff, CF14 5UW
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf, Llanisien, Caerdydd, CF14 5UW